Teitl adroddiad thematig: *Y Fframwaith Sgiliau yng nghyfnod allweddol 2: Arfarniad o'r Fframwaith Sgiliau anstatudol i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng nghyfnod allweddol 2, Mehefin 2011*

Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Ysgol Gynradd Gymunedol Holt, Wrecsam

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Holt ym mhentref Holt yng ngororau Cymru, ger Wrecsam. Ar hyn o bryd, mae 83 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae 14.8% o'r disgyblion hyn yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim.

Strategaeth

Drwy brosiect cydweithio 'Ysgolion bychain' a sefydlwyd yn 2006, mae'r ysgol hon, ynghyd â'i phartneriaid, wedi datblygu cwricwlwm sy'n cysylltu'r medrau ehangach â medrau pwnc.

Gweithred

Mae grisiau medrau pwnc, sy'n dangos dilyniant o 'weithio tuag at' (W) i lefel 5 yn cael eu cysylltu â'r medrau ehangach. Mae'r rhain wrthi'n cael eu diweddaru.

Dangosir isod enghraifft o gymhwyso medrau ehangach disgyblion ar lefel 4 o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer dylunio a thechnoleg:

Meddwl	**Cyfathrebu**	**Rhif**	**TGCh**
Rwy'n cymryd amser i ganfod a yw fy nyluniadau'n bodloni anghenion defnyddwyr wrth iddynt symud ymlaen	Rwy'n cyfathrebu fy syniadau a syniadau amgen sy'n dangos fy mod yn ymwybodol o gyfyngiadau fy syniadau i	Rwy'n defnyddio mesuriadau cywir a fy ngwybodaeth am gymhareb i wneud lluniadau wrth raddfa o fy nyluniad i	Rwy'n creu cyflwyniadau amlgyfrwng i arddangos fy nyluniadau neu gynhyrchion
Rwy'n arfarnu fy nghynnyrch neu ddyluniad o hyd i weld beth ellid ei wella	Rwy'n defnyddio testun, diagramau wedi'u labelu ac anodiadau i ddisgrifio fy syniadau	Rwy'n defnyddio fy ngwybodaeth am gyfrannedd i gymysgu cynhwysion, e.e. cacen	Rwy'n ymchwilio i gynhyrchion a defnyddwyr drwy ddefnyddio'r Rhyngrwyd
Rwy'n mireinio ansawdd gorffeniad fy nghynhyrchion	Rwy'n gallu cyflwyno testun darbwyllol am fanteision fy nghynnyrch	Rwy'n defnyddio fy ngwybodaeth am fesur, gan gynnwys arwynebedd a chyfaint, i gyfrifo'r deunyddiau sydd eu hangen am brosiect	Rwy'n defnyddio TGCh i lunio atodlenni gwaith

Canlyniadau

O ganlyniad:

- mae’r ysgol yn deall yn glir sut mae’r medrau allweddol yn sail i bob dysgu ac yn deall yn glir y cysylltiadau rhwng medrau uwch a medrau pwnc; ac
- mae arweiniad clir ar gyfer cynlluniau ysgol gyfan, yn ogystal â chynlluniau unigol yr athrawon, sy’n ffurfio sylfaen dda i ddatblygu medrau trawsgwricwlaidd y disgyblion.